Ffocws ar Fagloriaeth Cymru

Yn ystod yr haf eleni, caiff Bagloriaeth Cymru Cyfnod Allweddol 4 ac Uwch ei dyfarnu am yr ail dro. Caiff Bagloriaeth Cymru Ôl-16 ar lefelau Sylfaen a Chenedlaethol ei dyfarnu am y trydydd tro.

Beth yw Bagloriaeth Cymru?

Mae Bagloriaeth Cymru (Bac Cymru) ar bob lefel yn cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau a rhai cymwysterau ategol.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau, sef cymhwyster newydd ac arloesol sy'n seiliedig ar sgiliau, yn asesu sgiliau ar gyfer astudiaethau pellach a chyflogaeth ac mae'n cynnwys pedair elfen.

Mae'r pedair elfen hyn yn gyffredin i bob lefel ac yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer addysg, cyflogaeth a bywyd:



Tystysgrif Her Sgiliau	Diben	Sgiliau a gaiff eu meithrin a'u
1. Prosiect unigol (50%)	Datblygu sgiliau ymchwil	
2. Her Menter a Chyflogadwyedd (20%)	Meithrin sgiliau a phriodoleddau mentrus er mwyn gwella cyflogadwyedd	Llythrennedd Rhifedd Llythrennedd digidol Meddwl yn feirniadol a datrys problemau Cynllunio a threfnu Creadigrwydd ac arloesedd Effeithiolrwydd personol
3. Her Dinasyddiaeth Fyd-eang (15%)	Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion byd-eang	
4. Her y Gymuned (15%)	Nodi cyfleoedd yn y gymuned a chymryd rhan ynddynt	

Caiff gwaith myfyrwyr ar gyfer pob elfen o'r Dystysgrif Her Sgiliau ei farcio gan athrawon mewn ysgolion a cholegau ac ar ôl proses gymedroli fewnol, caiff sampl o'r gwaith ei safoni gan CBAC.

Er mwyn ennill cymhwyster Bagloriaeth Cymru, rhaid i fyfyrwyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau ategol. Mae Bagloriaeth Cymru ar gael ar lefelau 1, 2 a 3 a dyfernir llwyddiant neu fethiant.

Mae Tystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 yn cyfateb o ran maint a galw i gymhwyster TGAU. Gellir ei dyfarnu fel cymhwyster hyd yn oed os na fydd myfyriwr yn cyflawni'r cymwysterau ategol sy'n ofynnol i ddyfarnu Bagloriaeth Cymru.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yn cyfateb o ran maint a galw i gymhwyster Safon Uwch. Caiff ei graddio yn yr un ffordd ac mae ganddi'r un tariff pwyntiau UCAS.

Pwy sy'n sefyll arholiadau'r cymwysterau hyn yr haf hwn?

Mae'r data cofrestriadau yn dangos bod 27,790 o fyfyrwyr wedi cael eu cofrestru ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4, sef cynnydd o 15% o gymharu â chofrestriadau 2017. Mae 13,230 o gofrestriadau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, sef cynnydd o 14% o gymharu â chofrestriadau 2017.

Bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau ar gyfer y Tystysgrifau Her Sgiliau Ôl-16 o gymharu â 2017. Mae 190 o fyfyrwyr wedi cael eu cofrestru ar gyfer y Tystysgrifau Her Sgiliau Ôl-16 o gymharu â 1,600 o gofrestriadau yn 2016.

Rhagor o wybodaeth: www.cymwysteraucymru.org E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
Ff: 01633 373 222 @cymwysterau_cym